**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

9 Mai 2022

Gwella prosesau cyllidebol a threth

Annwyl Rebecca,

Diolch yn fawr am fy ngwahodd i gyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar 30 Mawrth. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gydweithio â chi ar y materion hyn er mwyn gwella'r ffordd y mae rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymgysylltu â phroses y gyllideb yng Nghymru ac yn ei deall. Mae eich cynnig caredig o sesiwn friffio technegol i'r Pwyllgor gan eich swyddogion ar Gynllun Gwella'r Gyllideb yn rhan arall o'r broses honno.

Rwy’n gwerthfawrogi bod angen gwahaniaethu rhwng gwaith sy'n ymwneud â gwella'r gyllideb a chyflwyno mecanweithiau i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth treth. Fodd bynnag, rwy’n credu hefyd y dylid gwahaniaethu ymhellach rhwng y materion hyn ac adolygiad ehangach o weithdrefnau cyllidebol y Senedd.

Mae'n gwbl briodol bod y mentrau parhaus i wella’r gyllideb yn cael eu cynnal gan y Llywodraeth a’u bod yn atebol i chi fel Gweinidog. Mewn cyferbyniad â hynny, gallai adolygiad o weithdrefnau cyllideb y Senedd fod yn fater llawer ehangach sy'n cwmpasu cymeradwyo terfynau gwariant cyffredinol a newidiadau i ddeddfwriaeth treth. Oherwydd hynny, mae'n gofyn am ddull cydweithredol penodol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Fel y mae’r ystyriaeth o Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) wedi’i dangos, nid yw cyflwyno mecanweithiau i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth treth yn beth syml ac mae angen mynd ati’n ofalus i ddatblygu ateb hirdymor. Yn yr un modd, rwy’n cydnabod bod gwahaniaeth barn yn bodoli o ran yr angen am broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb ac a ddylai deddfwriaeth o'r fath gynnwys elfennau ariannu.

Fel y gwyddoch, daeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol i'r casgliad y dylid sefydlu grŵp annibynnol i edrych ar y materion hyn. Rydw i felly'n croesawu’r ffaith eich bod yn agored i ystyried sefydlu adolygiad o'r fath ac edrychaf ymlaen at glywed canlyniadau'r trafodaethau rhwng swyddogion.

Dylid gwneud newidiadau i weithdrefnau cyllideb y Senedd mewn modd amhleidiol a dim ond ar ôl dod i gonsensws eang ar y materion hyn y dylid eu cyflwyno. Y ffordd orau o gyflawni hynny fyddai gweithio gyda'n gilydd i adolygu'r trefniadau presennol drwy fforwm annibynnol, a chynnwys rhanddeiliaid i ystyried prosesau cyllidebol newydd ac arloesol.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.